



Adran y Prif Weithredwr
Chief Executive's Department
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

Y CYNGOR
THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

2.00PM, DYDD IAU, 28 CHWEFROR 2008

2.00PM, THURSDAY, 28 FEBRUARY 2008

Lleoliad / Location

Siambr Dafydd Orwig
Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon

Pwynt Cyswllt / Contact Point

Eleri Parry

(01286) 679601

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 20/02/08)

Harry Thomas
Prif Weithredwr / Chief Executive

www.gwynedd.gov.uk

20 Chwefror/20 February 2008

Annwyl Gyngorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 28 CHWFROR 2008

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **2.00PM, DYDD IAU** nesaf, **28 CHWFROR 2008 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 28 FEBRUARY 2008

YOU ARE HEREBY SUMMONED to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **2.00PM** on **THURSDAY** next, **28 FEBRUARY 2008** in **SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,



Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol:-
The following rooms will be available for the political groups:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig (11.00 am)
Annibynnol/Independent – Ystafell Gwyrfai (11.30 am)
Llafur/Labour – Siambr Hywel Dda (10.00 am)
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Ogwen (11.30 am).
Cenedlaetholwyr Annibynnol/Independent Nationalists – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig (11.00 am).

RHAGLEN

1 GWEDDI

Bydd y Cynghorydd Emyr Pugh yn agor y cyfarfod gyda gweddi.

2 YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3 COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2007 (tudalennau 1 i 20 o'r gyfrol gofnodion).

4 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

6 GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

7 MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

8 CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

9 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR

BWRDD Y CYNGOR – 19 CHWEFROR, 2008

(A) Eitem 5 – Strategaeth Ariannol - Cyllideb a Blaenoriaethau'r Cyngor 2008/09 ac Eitem 10 Cyfundrefn Arbedion 2008/09

Cyflwyno:-

- (a) Adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau) ar y strategaeth ariannol a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror 2008.

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

“PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn:-

- (i) **y dylid derbyn y gyllieb a amlinellwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr (gan gynnwys ariannu'r bidiau unwaith ac am byth yn y dull a nodwyd) ond gan dderbyn ychydig mwy o risg a gostwng y gyllideb wrth gefn i £800,000, er mwyn cadw lefel y toriadau neu arbedion angenrheidiol i £3.514m, a chyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i 3.8%;**
- (ii) **osod £1m o'r swm o oddeutu £1.5m y bydd y Cyngor yn ei etifeddu yn sgil mewnnoli Cwmni Gwastraff Môn Arfon mewn cronfa, er mwyn medru cwrdd â'r anghenion buddsoddi sy'n debygol o godi yn y maes gwastraff yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r £0.5m arall at ddibenion unwaith ac am byth yng nghyllideb 2008/09.**

- (b) Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar broses blaenoriaethu adnoddau bidiau refeniw a chyfalaf 2008/9 – 2010/11 a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror, 2008

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

“PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo argymhellion y Pennaeth Polisi a Pherfformiad o ran y symiau a'r argymhellion gweithredu cysylltiedig”

- (c) Adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad ar Gyfundrefn Arbedion 2008/09 a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror, 2008. (*Amgaeir copi diwygiedig o'r Atodiad - papur pinc*)

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

“PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn dderbyn y sefyllfa ddiweddaraf parthed arbedion 2008/09”

(B) Eitem 6 – Dangosyddion Darbodus

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror, 2008.

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

“PENDERFYNWYD argymhell i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r dangosyddion darbodus arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd dilynol fel y'u cyflwynir ym mharagraffau 2.1 - 2.10 o adroddiad y Pennaeth Cyllid.”

(C) Eitem 7 – Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2008/09

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 19 Chwefror, 2008

Adrodd bod y Bwrdd wedi penderfynu fel a ganlyn:-

“PENDERFYNWYD argymhell i'r Cyngor llawn fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2008/09, a'r Atodiadau perthnasol, sy'n cynnwys newidiadau i'r “gwrthbartion cymeradwy” am fuddsoddiadau tymor byr”

****GOFYNNIR I'R AELODAU DDOD Â'U COPIAU O ADRODDIADAU A, B ac C UCHOD GYDA HWY I'R CYFARFOD****

(Os nad oes gennych gopïau o'r papurau y cyfeirir atynt uchod, ffoniwch y pwynt cyswllt ar flaen y rhaglen hon cyn y cyfarfod)

10 LWFANSAU AELODAU

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd. (copi yma – papur melyn).

11 ADOLYGU'R DOSBARTHU PLEIDLEISIO A'R MANNAU PLEIDLEISIO

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd. (copi yma – papur gwyrdd).

12 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2008/09

Cyflwyno dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2008/09. (copi yma - papur lelog)

13 CYNLLUN TAIR BLYNEDD

Cyflwyno, er ystyriaeth, drafft ymgynghorol Cynllun Tair Blynedd. (copi yma - papur glas).

14 GORCHYMYN ARDAL CYHOEDDUS DYNODEDIG YNGLŶN AG YFED ALCOHOL YN Y BALA

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Diogelwch Cymunedol. (copi yma - papur hufen).

15 RHYBUDD O GYNNIG

Adrodd, er gwybodaeth bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2007 wedi penderfynu gohirio trafod y rhybudd o gynnig a nodir isod tan gyfarfod nesaf o'r Cyngor oherwydd bod cynifer o aelodau wedi gorfod gadael cyn diwedd y cyfarfod.

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Dafydd Iwan yn cynnig fel a ganlyn:-

Rydym fel Cyngor yn falch iawn o'r arweiniad yr ydym wedi ei roi fel y Cyngor Sir cyntaf i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel prif iaith ein gweinyddu mewnol, tra'n cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd.

Datganwn yn awr ein bod am adeiladu ar y sylfaen hwn, ac am sicrhau yn ystod 2008 y byddwn yn cryfhau unrhyw wendidau yn y polisi iaith hwn, ac yn cyhoeddi Siarter Iaith ar y cyd gyda'n partneriaid i ehangu defnydd yr iaith ymhob agwedd ar fywyd y sir.

Datganwn ymhellach y byddwn yn sicrhau fod holl ysgolion y sir yn ysgolion Cymreig eu hethos, lle bydd y Gymraeg yn brif gyfrwng dysgu, a'r Saesneg ac ieithoedd eraill yn cael eu dysgu'n drwyadl fel ail ieithoedd, ac y bydd plant a phobl ifanc Gwynedd yn dysgu hanes a daearyddiaeth eu bro, eu sir a Chymru fel sylfaen i'w hastudiaethau.

Galwn drwy hyn ar awdurdodau lleol eraill i ddilyn ein hesiampl a gwneud y Gymraeg yn brif gyfrwng eu gweinyddiad mewnol.

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol

AGENDA

1 PRAYER

Councillor Emyr Pugh will open the meeting with a prayer.

2 APOLOGIES

To receive any apologies for absence.

3 MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of the Council held on 13 December 2007 be signed as true records (Pages 1 to 20 of the minutes volume).

4 DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

5 THE CHAIRMAN'S ANNOUNCEMENTS

To receive any Chairman's announcements.

6 CORRESPONDENCE, COMMUNICATIONS OR OTHER BUSINESS

To receive any correspondence, communications or other business brought forward at the request of the Chairman.

7 URGENT BUSINESS

To note any items which are urgent business in the opinion of the Chairman so they may be considered

8 QUESTIONS

To consider any questions the appropriate notice for which have been given under Procedural Rule 12.

9. MATTERS TO BE DECIDED BY THE COUNCIL

THE BOARD – 19 FEBRUARY, 2008

(A) Item 5 – Financial Strategy – The Council's Budget, Priorities and Savings 2008/2009 and Item 10 – 2008/09 Savings Regime

To submit:-

- (a) The report of the Strategic Director (Resources) on the financial strategy submitted to the Council Board on 19 February 2008.

To report that the Board resolved as follows:-

“RESOLVED to recommend to the full Council:-

- (i) **that the budget outlined in the Director's report (including funding the one-off bids in the manner noted) should be accepted, but to take on a greater level of risk and reduce the contingency budget to £800,000, in order to keep the necessary level of cuts or savings to £3.514m, and to reduce the increase in the Council Tax to 3.8%;**
- (ii) **to invest £1m of a total of approximately £1.5m that the Council will inherit as a result of internalising Cwmni Gwastraff Môn Arfon in a fund, in order to meet the investment requirements that are likely to arise in the field of waste in future, utilising the remaining £0.5m for one-off purposes in the 2008/09 budget”**

- (b) The report of the Head of the Policy and Performance Service on the revenue and capital bids resources prioritisation process 2008/09 – 2010/11, submitted to the Council Board on 19 February, 2008

To report that the Board resolved as follows:-

“RESOLVED to recommend to the full Council to accept the recommendations of the Head of Policy and Performance in terms of the sums and the related recommendations for action”

- (c) The report of the Head of Policy and Performance on the 2008/09 Savings Regime submitted to the Council Board on 19 February 2008. *(A revised copy of the Appendix is enclosed - pink enclosure)*

To report that the Board resolved as follows:-

“RESOLVED to recommend to the full Council to accept the latest position regarding savings for 2008/09”

(B) Item 6 - Prudential Indicators

- (i) To submit the report of the Head of Finance, submitted to the Council Board on 19 February, 2008.
- (ii) To report that the Board resolved as follows:-

“RESOLVED to recommend to the full Council to adopt the proposed prudential indicators for the current, forthcoming and following financial years as they are presented in paragraphs 2.1 – 2.10 of the report of the Head of Finance”

(C) Item 7 – Treasury Management Strategy Statement and Annual Investment Strategy for 2008/09

To submit the report of the Resources Strategic Director, submitted to the Council Board on 19 February, 2008.

To report that the Board resolved as follows:-

“RESOLVED to recommend to the full Council to adopt the Treasury Management Strategy Statement and Annual Investment Strategy for 2008/09, and the relevant Appendices, which include changes to the “authorised counterparties” for short term investments”

****MEMBERS ARE REQUESTED TO BRING THEIR COPIES OF REPORTS A, B and C ABOVE WITH THEM TO THE MEETING.****

(If you do not have copies of the papers referred to above please telephone the contact point on the front of this agenda before the meeting)

10 MEMBERS ALLOWANCES

To consider the report of the Head of Administration and Public Protection. (copy herewith – yellow paper).

11 REVIEW OF POLLING DISTRICTS AND POLLING PLACES

To submit the report of the Head of Administration and Public Protection. (copy herewith – green enclosure)

12 DATES OF THE COUNCIL'S MEETINGS FOR 2008/09

To submit the dates of the Council's meetings for 2008/09. (copy herewith – lilac enclosure)

13 THREE YEAR PLAN

To submit, for consideration the draft consultative Three Year Plan. (copy herewith – blue paper).

14 DESIGNATED PUBLIC PLACE ORDER RELATING TO THE CONSUMPTION OF ALCOHOL IN BALA

To submit the report of the Senior Community Safety Officer. (copy herewith – cream enclosure)

15 NOTICE OF MOTION

To report, for information, that the Council at its meeting on 13 December 2007, resolved to defer the discussion on the following notice of motion until the next meeting of the Council, as so many members had to leave before the end of the meeting.

In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Dafydd Iwan will propose as follows:-

We are proud as a Council of the lead we have given by being the first County Authority to use the Welsh language as its main language of internal administration, while delivering a fully bilingual service to the public.

We hereby declare that we will build on this foundation, and during 2008 will strengthen any weakness in this policy, and with our partners across the county will launch a Language Charter to further enhance the use of the Welsh language in all spheres of the life of Gwynedd.

We further declare that we will ensure that all Gwynedd schools will have a Welsh ethos, where Welsh will be the main medium of education and English and other languages taught thoroughly as second languages, and the children and youth of Gwynedd will learn the history and geography of their community, county and of Wales as a basis of their studies.

We hereby call upon other local authorities to follow our example and to make the Welsh language their main internal administrative language.

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

